# PERTHYN

Chwefror 2024 Rhifyn 323



'Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Byddwch wresog yn eich serch at eich gilydd fel cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn parch.'

Rhufeiniaid 12: 9–10

# Cyfarchion

Fe ddaeth ac fe aeth y Nadolig! Wedi wythnosau o ddarparu, a hynny er mwyn sicrhau dathliad teilwng i deulu a chyfeillion ac eglwys, fe ddiflannodd y flwyddyn ac mae hi bellach yn ddiwedd Ionawr. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn gwahanol ffyrdd at ein dathlu fel eglwys, gan sicrhau bod y neges dragwyddol am 'Dduw gyda ni' yn cael ei chyhoeddi. Fe fu'n amser o fendith ac o anghofio am ychydig oriau ac mae hynny'n beth braf, ond fel gyda phob achlysur o'r fath, mae'r cyfan yn dod i ben yn fuan a daw'r amser i ddychwelyd at ryw fath o normalrwydd. Y mae awduron yr Efengylau yn defnyddio geiriau fel 'dychwelyd' ac 'aethant yn ôl', gan danlinellu bod yna yfory bob amser mewn bywyd.

Pwy ohonoch sy'n cofio cân enwog y 'Seekers' o'r chwedegau: 'The Carnival is over'. Cân serch oedd honno yn sôn am ddau'n gwahanu, ond er y cyd-destun penodol fe ellid dehongli'r gân mewn ffordd gyffredinol hefyd, ac yn arbennig felly wrth ffarwelio â'r gorffennol. Mor braf fyddai dal gafael yn ein heddiw a pheidio â chaniatáu iddo lithro o'n dwylo, ond nid peth fel yna yw amser. Wrth i rywun fynd yn hŷn, fe fyddai'n wir dweud bod y dyhead i ddal gafael yn cryfhau a ninnau o ganlyniad yn dyheu am fyw bywydau ein gorffennol. Ar ben hynny mae'r duedd yna i ramanteiddio a meddwl weithiau bod bywyd ddoe yn well ac yn haws! Beth bynnag am hynny, fe fyddai'n wir dweud bod dechrau blwyddyn newydd yn ein hatgoffa o ddau brif beth, sef pwysigrwydd diolch am ddoe ond hefyd am gyfleoedd heddiw.

Yn ein bywydau personol a chymunedol, rydym i gyd yn dewis a dethol ac wrth wneud hynny yn blaenoriaethu yng nghyd-destun yr hyn sy'n aros a'r hyn y byddwn yn gollwng gafael ynddo. Y llinyn mesur yn aml iawn yw'r hunan a phan ddigwydd hynny mae yna berygl weithiau inni golli golwg ar yr hyn sy'n cyfrif. Hawdd fyddai manylu ond efallai mai digon yw tanlinellu'r rheidrwydd i ddal gafael ym mhethau pwysig bywyd a rhoi lle teilwng i'r hyn fu'n gyfrwng bendith a

chadernid yn y gorffennol. Ac felly ym mywyd yr eglwys wrth i ni geisio darganfod ein traed o'r newydd. Mor bwysig yw darganfod patrymau newydd o fod yn eglwys ond ar yr un pryd mae perygl gollwng gafael yn yr hyn sy'n sefyll ers dwy fil o flynyddoedd, yn gredo a ffordd o fyw, a chredu bod dyletswydd arnom i ail-greu'r olwyn! Gwir nad rhywbeth statig yw'r eglwys ond ar yr un pryd mae'n bwysig gwarchod yr hyn sy'n aros dros amser a dim yn fwy na'r ddealltwriaeth o fywyd newydd yng Nghrist.

Ac yna'r alwad i ddal gafael ar gyfleoedd heddiw, rhywbeth sy'n galw am argyhoeddiad, am ddealltwriaeth o'r gwirionedd am Dduw ym mherson yr Iesu ac am aberth. Nid gweithred hawdd yw dilyn yr Iesu mewn unrhyw gyfnod, yn arbennig pan ydym yn lleiafrif, ond cofiwn mai heddiw yw'r diwrnod ac nid yfory.

Felly a hithau'n flwyddyn newydd, gadewch i ni wneud y flwyddyn yma'n flwyddyn arbennig yn ein bwydau personol ac ym mywyd yr Eglwys. Blwyddyn i ni ein darganfod ein hunain yn y mannau anghyfarwydd, newydd, gwahanol hynny, gan brofi o'r newydd her ein ffydd a bendith y Duw tragwyddol sy'n gymaint rhan o'n heddiw ag o'n ddoe.

Blwyddyn Newydd Dda ym mis Chwefror i chi i gyd!

Eifion

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Mawrth at Arwel Rocet Jones (rocetarwel@yahoo.com) neu Sharon Owen (sharonwen527@btinternet.com) erbyn **dydd Gwener, 16 Chwefror 2024**, yn ddi-ffael, os gwelwch yn dda.

# Newyddion Ebeneser




## Cofion . . .

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser ar ddechrau blwyddyn newydd.

## Gwasanaethau

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig o dan ofal ein Gweinidog, Eifion Roberts, yn Ebeneser brynhawn Sul, 19 Rhagfyr.

Mae'r patrwm o ddau wasanaeth y mis wedi ei sefydlu erbyn hyn – ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul yn y mis. Gweinyddir y Cymun gan ein Gweinidog ar y Sul cyntaf yn y mis a diolch i Susan Hughes am baratoi'r bara a'r gwin.

*I'r rhai sydd heb fod yn yr oedfaon yn Ebeneser, beth am ymuno ambell Sul? Mae bob amser groeso cynnes yn eich disgwyl.*

# Newyddion Morfa

Anfonwn ein cofion at y rhai fu yn yr ysbyty yn ystod yr wythnosau diwethaf a chyn y Nadolig: Ifor Davies, Arwel Rocet Jones a Mair Jones. Anfonwn ein cofion at Greta Appleton sydd wedi dychwelyd gartref ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty; hefyd at ein haelodau sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi preswyl.

***Cydymdeimlo*** . . .
Cydymdeimlwn â Beryl a William Roberts a'r teulu ar farwolaeth chwaer Beryl, sef Mrs Mary Myfanwy Owen, Dale, sir Benfro.

Cydymdeimlwn hefyd â Shelagh a Gwynfor Jones a'r teulu ar farwolaeth modryb i Shelagh, sef Mrs Ann Thomas, Boston, Swydd Lincoln.


***Dymuniadau Gorau***
Dymunwn yn dda i Gwenda Griffiths sydd wedi symud yn ôl i fyw i Aberystwyth o Abertawe ac i'w chartref newydd yn yr Aelwyd, Ffordd Llanbadarn.

***Geni – Llongyfarchiadau***
Llongyfarchiadau i Llinos a Huw Bonsall ar enedigaeth eu hŵyr cyntaf, sef Ifan Henri, mab i Steffan a Ffion Bonsall, Caerfyrddin.

Llongyfarchiadau i Ieuan ac Eluned Jones ar enedigaeth eu gorwyres, sef Casi Elen. Merch i Leah a Connor Mckee, Llanybydder, a chwaer i Noa a Macsen.

Llongyfarchiadau i Llifon a Nia Elis, ar enedigaeth Mali Enlli – chwaer i Mirain. Mae'n braf eu croesawu fel teulu i'r Ysgol Sul.

---




**Cyfres Celt y Ci**

Llongyfarchiadau i Rhiannon Wyn Salisbury sydd wedi cyhoeddi cyfres o bump llyfr lliwgar i'r plant ieuengaf sydd yn dechrau dysgu darllen – sef Cyfres Celt y Ci. Mae Celt a'r anifeiliaid eraill yn byw ar Fferm y Ffridd. Y cyhoeddwyr yw Gwasg y Lolfa.

# Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf yn **Seion, Stryd y Popty**, ddydd Llun, 5 Chwefror, rhwng 12.00 a 1.30pm.

**Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!**

---

# CROESO CYNNES . . .

COFIWCH am y **CROESO CYNNES** (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn y Morlan bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cynorthwyo ac yn croesawu. Diolch i Gylch Cinio 95 am y rhodd hael o £200 tuag at y Croeso Cynnes ac am y rhoddion eraill a dderbyniwyd yn ystod y misoedd diwethaf.

---

# Astudiaeth Ffydd a Phaned –<br>Dydd Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Mae Astudiaethau Ffydd a Phaned yn cyfarfod ar Zoom bob prynhawn Gwener am 2 o'r gloch. Y tymor hwn byddwn yn dilyn yr Astudiaethau yng nghyfrol y Parchedig Dafydd Andrew Jones.

Croeso cynnes i bawb. Ceir manylion am y ddau gyfarfod gan Eifion.

## Her ar gyfer 2024 . . .

Y mae gwaith y Nadolig yn dechre
pan ddaw dydd Nadolig i ben,
pan fydd Santa 'di throi hi am adre
a'r goeden yn ddim byd ond pren.

Pan fo'r tinsel yn saff yn yr atic
yn angof mewn dau neu dri blwch,
y cyfarchion a'r cardie 'di llosgi
ac ysbryd yr Ŵyl yn hel llwch.

Bryd hynny y mae angen angylion
i dorchi'u hadenydd go iawn,
a bryd hynny mae angen lletywyr
all 'neud lle er bo'r llety yn llawn.

Yr un pryd mae galw am Fugail
i warchod y defaid i gyd,
fel mae galw am ddoethion a seren
i egluro tywyllwch y byd.

Mae 'na alw am gast drama'r geni
drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,
am fod gwaith y Nadolig yn anodd –
yn ormod o waith i un dydd.

Mererid Hopwood

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu! [www.capelymorfa.cymru](http://www.capelymorfa.cymru)

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif X/Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfrif Facebook




## Cadair yn rhodd

Hoffem ddiolch fel eglwys i Mr Wynford Evans am y rhodd garedig o gadair. Bydd pwt yn *Perthyn* mis Mawrth yn rhoi ychydig o hanes y gadair arbennig yma.

---

# Dyddiadau i'w cofio . . .



**Cymdeithas y Morfa**
Nos Lun, 5 Chwefror, am **7.00 o'r gloch** yn y Festri
Siaradwr: Hywel Griffiths

---



Nos Lun, **26 Chwefror**, am 7.00 o'r gloch, Gwesty'r Marine – Swper Gŵyl Ddewi yng nghwmni Mererid Hopwood
Pris tocyn: £19

Croeso cynnes i bawb.



Tocynnau ar gael gan Ifor, Arwel a Nest.

# Y Gymdeithas




Ar nos Lun 8 Ionawr, Hywel Lloyd a gymerodd y rhannau defosiynol. Paratowyd cwis i'r aelodau gan Nest Gwilym ac roedd pawb yn edrych ymlaen at ateb y cwestiynau ac at ddysgu ambell ffaith. Cawsom rowndiau oedd yn cynnwys rhai ar wybodaeth gyffredinol, adnabod emyn-donau a lluniau o feched adnabyddus cysylltiedig â Cheredigion. Diolchodd Robin i Nest am ei pharatoi trylwyr a chafwyd noson ddiddorol a hwyliog. Llongyfarchwyd y tîm buddugol ar eu camp – Shelagh, Eleri, Lona a Gwynfor mewn gornest agos iawn.



**Dorothy Bonarjee** oedd testun Nia Daniel, Pennaeth Isadran Archifau, Llawysgrifau a Chofnodion Modern y Llyfrgell Genedlaethol yng nghyfarfod 22 Ionawr. Cafwyd cyfle i glywed hanes y ferch o dras Indiaidd – y gyntaf i raddio yn y gyfraith yng ngholeg UCL yn Llundain a'r ferch gyntaf i ennill cadair Eisteddfod Golegol Prifysgol Cymru Aberystwyth tra oedd yn fyfyrwraig yma yn 1914. Anogwyd yr aelodau i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld 'llyfr du' Dorothy Bonarjee a'r trysorau eraill sydd ar ein stepan drws. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Dewi Hughes a'r diolchiadau gan Huw Owen.

*Poems from the Soul*
M. Wynn Thomas
Darluniau: Ruth Jên Evans
Pris: £12.99
Cyhoeddwr: Calon
ISBN: 9781837600113




Mae emynau mawr ein hoes yn farddoniaeth y byddwn yn parhau i droi atynt mewn priodasau ac angladdau, mewn gemau rygbi ac mewn tafarndai. Yn y gyfrol hon, mae deuddeg o hoff emynau'r Cymry wedi'u casglu ynghyd o'r ddeunawfed i'r ugeinfed ganrif ac yn datgelu calon ac enaid barddoniaeth pobl. Cerddi'r werin sydd yma – y gofaint, ffermwyr a'r pregethwyr – y rhai sydd wedi bod yn allweddol yn ffurfiant y Cymry. Mae darluniau gwreiddiol gan Ruth Jên drwy'r gyfrol sy'n plethu â mewnwelediad yr Athro M. Wynn Thomas wrth iddo ddangos pŵer trawsnewidiol lleisiau drwy gyfrwng canu.

## Cylch Gweddi a Choffi bore dydd Mawrth

Mae'r Cylch Gweddi a Choffi sy'n cyfarfod bob bore Mawrth wedi ailddechrau wedi'r Nadolig ac yn cyfarfod yn y Festri (10.30) ac ar Zoom (11.00) am yn ail wythnos. Cytunwyd ein bod yn rhannu'r arian coffi rhwng y Banc Bwyd a'r Croeso Cynnes.

# Y Clwb Sul (Ysgol Sul)

Gwasanaeth Nadolig

Yn ystod Sul cyntaf mis Rhagfyr cynhaliwyd Llanllanast y Cristingl a'r Adfent gydag amrywiaeth o weithgareddau crefft wedi eu darparu ar y thema *Goleuni.* Roedd yn ddechrau cyfnod o baratoi at y Nadolig ac at y gwasanaeth o dan ofal plant a ieuenctid y Clwb Sul a gynhaliwyd fore Sul, 17 Rhagfyr. Y thema oedd *Rhannu'r Goleuni.* Yn dilyn y darlleniadau, unawd ac eitemau offerynnol, cyflwynwyd yr hanes am eni'r Iesu ym Methlehem gan anifeiliaid y stabl oedd yn adrodd yr hyn a welwyd ganddynt y noson arbennig honno. Aeth yr ieuenctid ymlaen i bontio'r hanes gyda sefyllfaoedd truenus sy'n bodoli yn ein byd ni heddiw – sefyllfa'r ffoaduriaid, y digartref a'r rhai sy'n dioddef yn enbyd o ganlyniad i ryfeloedd. Gyda'u llusernau, cyflwynodd Plant y Goleuni yr emyn: '*Tyrd O Iesu, tyrd. Tyrd i'n byd mawr crwn. Rho i ni dy hedd yn ein byd mawr crwn. Golau rho i ni yn ein byd mawr crwn.'* Terfynwyd trwy ganu'r emyn a rhannu goleuadau bach ymhlith y gynulleidfa.

Yn dilyn y gwasanaeth, cynhaliwyd parti yn y festri a chafodd Siôn Corn groeso gan bawb pan alwodd heibio.

*Diolch i bawb a gyfrannodd at y gwasanaeth a'r parti.*




*Gwasanaeth Nadolig 2023*



*A chwmni Sion Corn wedi'r parti . . .*

Y tymor hwn, hyd at y Pasg, ein thema fydd Taith. Yn ystod mis Ionawr cyflwynwyd taith y Seryddion, taith Joseff a Mair a’r baban Iesu i ymweld â Simeon ac Anna yn y Deml a thaith Iesu yn ddeuddeg oed i’r Deml yn Jeriwsalem gyda’i rieni.













**Caru ein Gilydd**

Arglwydd, dysg ni i garu ein gilydd,
oherwydd ynot ti y mae cariad:
Arglwydd, dysg ni i garu ein gilydd.

Y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw,
ac yn adnabod Duw:
oherwydd cariad yw Duw.



Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom:
bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd
er mwyn i ni gael byw drwyddo ef.

Yn hyn y mae cariad,
nid ein bod ni'n caru Duw:
ond ei fod ef wedi'n caru ni ac anfon ei Fab
i fod yn foddion ein puredigaeth oddi wrth ein pechodau.

Os yw Duw wedi ein caru ni fel hyn,
fe ddylem ninnau hefyd garu ein gilydd:
os ydym yn caru ein gilydd y mae Duw yn aros ynom
ac y mae ei gariad ef wedi ei berffeithio ynom ni.

Cariad yw Duw:
ac y mae'r hwn sy'n aros mewn cariad
yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.

Arglwydd, aros ynom ni,
fel y down i adnabod a chredu'r cariad
sydd gennyt ti tuag atom.
Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Cymer fy Munudau*, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis)

# Blodau Chwefror 2024



**4 Chwefror**: Nonna Owen – Cyfraniad at elusen
**11 Chwefror**: Elsbeth M. Lewis
**18 Chwefror**: Dilys Lloyd a Hywel Lloyd
**25 Chwefror**: Hefina Davies-Wright a Siân

# SULIAU CHWEFROR 2024

**Blaenor y Mis:** Wyn Hughes

**4 Chwefror**: Eifion Roberts (oedfa Gymun)
**11 Chwefror**: Beti Griffiths
**18 Chwefror**: Eifion Roberts
**25 Chwefror**: Bronwen Morgan

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com






## CAPEL Y MORFA – Nos Fercher, 14 Chwefror am 7.30